Llywodraeth Cymru
Welsh Government

LLYWODRAETH CYMRU

# Cynllun Gwella'r Gyllideb

llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG48835, ISBN digidol 978-1-83625-555-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 1

**Cyflawni Cynllun Gwella’r Gyllideb** 2

**Cynnydd ar gyflawni Cynllun Gwella’r Gyllideb yn ystod 2024** 4

Penderfyniadau Gwario 4

Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesiad o'r Effaith 4

Cynllunio Seilwaith 4

Trethi Cymreig 5

Trethi Cymreig 5

Cyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn y Dyfodol 6


# Cyflwyniad

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb yn rhoi ein gweledigaeth i wella proses gyllideb Llywodraeth Cymru drwy ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a’r pum ffordd o weithio er mwyn sicrhau gwelliant parhaus. Mae’r Ddeddf yn ganolog i brosesau ein cyllideb, a nod cyffredinol Cynllun Gwella’r Gyllideb yw cynyddu tryloywder o ran sut mae wedi dylanwadu ar benderfyniadau’r gyllideb.

Rydym wedi ymrwymo i ddiweddaru’r cynllun bob blwyddyn, er mwyn cydnabod yr angen am adolygiad rheolaidd i sbarduno newid parhaus a chynaliadwy. Felly, mae’r cynllun hwn ar ei newydd wedd yn dangos y camau rydym wedi’u cymryd yn ystod cylch presennol y gyllideb a sut rydym yn bwriadu adeiladu ar y gwaith hwn yn y dyfodol.

Mae diweddariad eleni wedi cael ei gwblhau yn dilyn cyllideb gyntaf Llywodraeth newydd y DU a oedd yn darparu setliad un flwyddyn i Lywodraeth Cymru. Rydym yn disgwyl y bydd Llywodraeth y DU yn symud i setliadau amlflwyddyn yn y dyfodol a fyddai’n rhoi mwy o sicrwydd am gyllid i Lywodraeth Cymru a’n partneriaid cyflenwi, ac yn helpu i gynllunio a gwneud penderfyniadau yn y tymor hirach.

Wrth gyhoeddi Cyllideb Ddrafft blwyddyn o hyd, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i barhau i ganolbwyntio ar yr uchelgeisiau tymor hirach i ddiwygio prosesau treth a chyllideb. Mae ein Cynllun Gwella’r Gyllideb yn nodi’r cynnydd rydym wedi’i wneud, ynghyd â’n huchelgeisiau ar gyfer diwygiadau i’r dyfodol.

Er mwyn ein cefnogi i ddatblygu uchelgeisiau tymor hir, rydym wedi defnyddio arbenigedd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ochr yn ochr ag amrywiaeth o arbenigwyr a llywodraethau eraill. Nod y Grŵp hwn yw ymgysylltu a symbylu gwelliannau i'n prosesau treth a chyllideb, a chefnogi’r gwaith o gyflawni Cynllun Gwella’r Gyllideb. Mae manylion gwaith y Grŵp ar gael ar dudalen we y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.

## Cyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb

Mae Cynllun Gwella'r Gyllideb wedi'i lunio ar sail pum elfen allweddol:

1. Penderfyniadau Gwario
2. Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesiad o'r Effaith
3. Cynllunio Seilwaith
4. Trethi Cymreig
5. Ymgysylltu

**1. Penderfyniadau Gwario –** Rydym yn adolygu sut gallwn wella ein prosesau a ddefnyddir ar draws Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd i nodi ac i ddatblygu gwell cynigion gwario, i wella gallu a'n helpu i flaenoriaethu penderfyniadau sy'n cyd-fynd yn gliriach â'r nodau llesiant a'r ffyrdd o weithio, ac i ystyried cyfleoedd i gynllunio'n well ar gyfer y tymor hirach. Mae gwaith wedi dechrau ar Adolygiad Gwariant Cymru a fydd yn ymestyn y tu hwnt i gyfnod nesaf y gyllideb. Bydd hyn yn gyfle i edrych ar yr holl ysgogiadau cyllidol sydd ar gael a chymryd golwg strategol, tymor hirach ar heriau a chyfleoedd trethi a gwariant allweddol i Gymru.

**2. Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesiad o'r Effaith –** Rydym yn parhau i werthuso sut gallwn wella'r Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd presennol ar draws Llywodraeth Cymru er mwyn asesu a gweld yn well beth yw effaith ein penderfyniadau ynghylch y gyllideb.


**3. Cynllunio Seilwaith –** Cynlluniwyd Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru (WIIS) i osod fframwaith ar gyfer ein holl fuddsoddiadau mewn seilwaith. Mae'n canolbwyntio ar ganlyniadau, gan nodi ein blaenoriaethau a sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cyflawni nifer o amcanion ac yn cyflawni nifer o fanteision.

**4. Trethi Cymreig –** Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein hysgogiadau treth presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i feithrin perthnasoedd gwaith adeiladol, gan ymgysylltu'n gynharach i gefnogi'r gwaith o lunio polisïau'n well. Rydym yn canolbwyntio ar godi refeniw i ariannu gwasanaethau cyhoeddus mor deg â phosibl, ystyried sut gellir defnyddio'r ysgogiadau treth presennol sydd ar gael i ni i gyflawni ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu a datblygu ein buddiannau treth yn y dyfodol i gyflawni amcanion cyllidol a pholisi ehangach. Yn unol â'r egwyddorion polisi trethi a nodir yn y Fframwaith Polisi Trethi, byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn datblygu polisi trethi sy'n gwneud ein trethi'n syml, yn glir, yn flaengar ac yn sefydlog, gydag eglurder ac effeithlonrwydd deddfwriaethol a gweinyddol.

**5. Ymgysylltu –** Rydym yn cyfathrebu ac yn ymgysylltu mewn ffordd gydgysylltiedig a strategol, gan sicrhau bod y gweithgarwch yn cyd-fynd ag amcanion Gweinidogion. Mae ymgysylltu a chydweithio â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid allweddol yn dal yn flaenoriaeth, yn enwedig o ystyried y sefyllfa gyllidol anodd barhaus.

Mae'r diagram cysyniadol ar y dudalen nesaf yn dangos y berthynas rhwng amryw o agweddau ar y gyllideb flynyddol sydd yn y cynllun hwn ac sy'n cael eu crynhoi uchod.

# Sut mae’r cyfan yn gweithio gyda’i gilydd?



# Cynnydd ar gyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ystod 2024

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran cyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ystod 2024. Ym mhob un o'r pum maes allweddol, rydym wedi cymryd camau i sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft yn canolbwyntio ar uchelgeisiau tymor hirach ac mae wedi gwneud pethau'n fwy tryloyw o ran sut mae'r pum ffordd o weithio wedi cyfrannu at ein penderfyniadau.

## Penderfyniadau Gwario

Rydym wedi parhau i archwilio sut mae gwella ein dealltwriaeth o effeithiau integredig y penderfyniadau gwario sy'n cael eu gwneud ar draws Llywodraeth Cymru. Fel rhan o hyn, rydym wedi ystyried sut gallwn ni ddeall yn well beth yw effeithiau croestoriadol ac anfwriadol ein penderfyniadau gwario a'u lliniaru i'n galluogi i gynyddu effaith gadarnhaol y cyllid sydd ar gael. O ganlyniad, rydym wedi diweddaru'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol ar benderfyniadau polisi a gwariant unigol.

Rydym wedi dechrau gweithio ar adolygiad manwl o'n Hasesiad Effaith Integredig Strategol. Rydym wedi ymgysylltu'n gynnar ag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ac wedi gofyn am dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol mewnol ym meysydd polisi a chyllid. Drwy ein hymgysylltiad â llywodraethau eraill, gan gynnwys Canada, Gwlad yr Iâ, Gogledd Iwerddon a'r Alban, rydym yn defnyddio profiad ac arferion gorau o bob cwr o'r byd.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â llywodraethau eraill i rannu profiadau o wella'r gyllideb, yn fwyaf diweddar gyda Llywodraethau Canada, Gwlad yr Iâ a'r Alban. Mae hyn yn helpu i siapio'r gwersi rydym wedi eu dysgu mewn meysydd fel cyllidebu ar sail rhyw.

Mae'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw a gynhaliwyd yn 2022-23 wedi siapio ein dealltwriaeth o sut gellir gwreiddio ac ehangu'r gwaith hwn ymhellach ar draws Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhyrchwyd dogfen ganllaw Cyflwyniad i Gyllidebu ar sail Rhyw i staff Llywodraeth Cymru i helpu i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o sut dylent ystyried cyllidebu ar sail rhyw yn eu meysydd busnes a'u penderfyniadau gwario. Bydd prif ganfyddiadau'r cynlluniau peilot yn cael eu cyhoeddi yn 2025.

Rydym wedi parhau â'n gwaith atal, gan ddefnyddio gweddill y gronfa Buddsoddi i Arbed i ganolbwyntio ar fwrw ymlaen ag ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau i bant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r gronfa hon wedi darparu gwasanaethau Maethu, Mabwysiadu ac Eiriolaeth ychwanegol.

Er mwyn datblygu ein dull atal ymhellach, sefydlodd y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb ffrwd waith bwrpasol i ystyried sut gallai fod yn berthnasol i fioamrywiaeth ac i brofi dulliau gweithredu newydd. Bydd casgliadau'r gwaith hwn yn llywio camau gweithredu ac ystyriaethau yn y dyfodol o ran sut gellir cyflwyno dull gweithredu cyllideb gyfan ar gyfer gweithgarwch ataliol yn effeithiol. Bydd gwreiddio'r dull ataliol ymhellach yn allweddol i Adolygiad Gwariant Cymru, ymarfer a fydd yn ystyried budd cynllunio cyllidol tymor hirach wrth fynd i'r afael â'r heriau gwario a fydd yn wynebu Cymru yn y dyfodol.

## Dadansoddiadau Cyllidol ac Economaidd ac Asesiad o'r Effaith

Gan ddefnyddio'r data a'r dystiolaeth sydd ar gael, mae economegwyr Llywodraeth Cymru wedi parhau i chwarae rhan ganolog yn y gwaith o gynhyrchu dadansoddiadau economaidd a gwybodaeth am yr economi a'r heriau sy'n wynebu Cymru. Mae hyn wedi cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion yn ogystal â pharatoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol.

Eleni, rydym wedi cyhoeddi adroddiad newydd, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru, sy'n disodli Adroddiad y Prif Economegydd. Mae'n cynnwys y prif faterion economaidd a chyllidol, ond mae hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar gynhyrchiant a'i fwriad yw ategu Adroddiad Llesiant Cymru.

Rydym wedi mireinio a diweddaru ein model effaith ddosbarthiadol i ddadansoddi gwariant cyhoeddus yng Nghymru. Mae'r dadansoddiad hwn yn canolbwyntio ar y meysydd gwariant datganoledig mwyaf, gan roi dealltwriaeth lefel uchel ynghylch pa mor flaengar yw gwariant ar y meysydd hyn. Eleni, rydym wedi diweddaru'r holl ddadansoddiadau ar sail data diweddaraf yr Arolwg o Adnoddau Teulu. Ar ben hynny, rydym wedi mireinio'r fethodoleg i ddadansoddi cwintelau incwm. Cyhoeddwyd y diweddariad ar y dadansoddiad dosbarthiadol fel rhan o becyn Cyllideb Ddrafft 2025-26.

## Cynllunio Seilwaith

Fe wnaethom gyhoeddi ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru 10 mlynedd ym mis Rhagfyr 2021. Dyma ein hail strategaeth seilwaith drawslywodraethol 10 mlynedd, sydd wedi'i chynllunio i osod fframwaith ar gyfer ein holl fuddsoddiadau mewn seilwaith. Mae'n defnyddio sylfaen dystiolaeth gadarn i integreiddio ystyriaeth o fuddiannau hanfodol eraill – gan gynnwys datgarboneiddio, gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth – er mwyn i'n buddsoddiadau mewn seilwaith gael yr effaith gadarnhaol fwyaf bosibl ar lesiant Cymru.

Nid yw'r strategaeth yn rhestr o'r buddsoddiadau seilwaith penodol a fydd yn cael eu cyflawni. Yn hytrach, mae'n nodi'r canlyniadau y dylai buddsoddi mewn seilwaith eu galluogi. Gan fod hon yn strategaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau, cynlluniwyd y fframwaith i flaenoriaethu ein buddsoddiadau mewn seilwaith a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru i sicrhau bod ein buddsoddiadau'n cyflawni nifer o amcanion ac yn sicrhau nifer o fanteision.

Mae'r strategaeth hefyd yn disgrifio sut rydym yn bwriadu gweithio i gyflawni'r canlyniadau hynny, gan nodi'r gofynion sylfaenol pwysig y mae'n rhaid i bob cynnig ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol eu bodloni. Bydd yr egwyddorion trawsbynciol hyn, fel sicrhau bod buddsoddiad yn cyflawni yn erbyn ein hamcanion datgarboneiddio, ein hagenda creu lleoedd, a dangos ein hymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol – er enghraifft, drwy fabwysiadu dulliau cyllidebu ar sail rhyw – yn cael eu gwreiddio gan holl adrannau Llywodraeth Cymru pan fydd buddsoddiadau mewn seilwaith yn cael eu cynllunio. Bydd yr egwyddorion trawsbynciol hyn yn ystyriaethau pwysig yng ngwaith Adolygiad Gwariant Cymru.

Mae pennod cyflawni'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru yn nodi gofyniad i gael gwerthusiad cadarn o fuddsoddiadau mewn seilwaith. Mae gwerthuso effeithiol yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gwireddu manteision ein gwariant cyfalaf, ac i asesu i ba raddau y mae ein dyraniadau cyllideb cyfalaf yn cyfrannu at ganlyniadau'r strategaeth. Rydym yn disgwyl y bydd gwerthuso, ochr yn ochr â gweithgareddau sicrwydd rheolaidd, yn chwarae rhan ganolog mewn penderfyniadau ynghylch dyraniadau cyllideb cyfalaf yn y dyfodol a byddwn yn edrych ar opsiynau yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## Trethi Cymreig

Rydym yn parhau i fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau a manteisio ar gyfleoedd i ddefnyddio ein hysgogiadau treth presennol er budd trethdalwyr Cymru a chyflawni amcanion polisi ehangach Llywodraeth Cymru.

Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi'r Cynllun Gwaith Polisi Trethi ar gyfer 2021-2026 i gyd-daro â chyhoeddi'r Fframwaith Polisi Trethi diweddaraf. Mae'r cynllun gwaith yn nodi blaenoriaethau ein polisi trethi er mwyn sicrhau bod trethi wedi'u datganoli'n gadarn a sefydlog, a chefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau ein Rhaglen Lywodraethu mewn perthynas â threthi datganoledig a lleol. Mae ein Cynllun Gwaith Polisi Trethi yn rhoi cyfarwyddyd a sicrwydd clir mewn perthynas â'n blaenoriaethau o ran polisi trethi ar gyfer y cyfnod o bum mlynedd.

Yn 2023, cwblhawyd yr adolygiadau annibynnol o'n dwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, ac mae'r adroddiadau wedi cael eu cyhoeddi[1]. Yn ystod 2024 fe wnaethom ddechrau gweithio i fwrw ymlaen ag argymhellion yr adolygiadau hyn fel y bo'n briodol.

Mae'r gwaith yn parhau i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu i awdurdodau lleol godi Ardoll Ymwelwyr. Cyflwynwyd deddfwriaeth ddrafft gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2024 ac rydym yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni gwblhau ein cynigion.

Mae Deddf Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) 2022 yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ymateb pan fydd angen gwneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru yn gyflym oherwydd digwyddiadau allanol. Mae gwaith wedi dechrau ystyried y saernïaeth tymor hirach i Lywodraeth ac i Senedd Cymru wneud newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru yn unol â'r amserlen a ddarperir gan y Ddeddf.

Rydym yn parhau i weithio gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar drethi a gedwir yn ôl. Drwy waith ymgysylltu cynnar ac yn adeiladol, gallwn sicrhau bod modd tynnu sylw at y materion sy'n berthnasol i Gymru a mynd i'r afael â nhw'n gynnar, gan gefnogi'r gwaith o lunio polisïau'n well.

Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o ystyriaethau sy'n ymwneud â threth gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru fel bod trethiant, lle bo hynny'n briodol, yn rhan o ddatblygu polisi i sicrhau nad oes canlyniadau anfwriadol sy'n gysylltiedig â threth. Bydd hyn yn rhan allweddol o'n dull gweithredu newydd yn Adolygiad Gwariant Cymru.

Rydym yn adrodd ar ragor o fanylion yn ein Hadroddiad Polisi Trethi blynyddol a gyhoeddir ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft.

1 Adolygiad annibynnol:Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017
Adolygiad annibynnol:Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 | LLYW.CYMRU

## Ymgysylltu

Rydym yn parhau i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid fel rhan allweddol o'r gwaith o ddatblygu Cyllideb Ddrafft 2025-26.

Yn ystod yr haf, ymgymerodd y Prif Weinidog â rhaglen ymgysylltu ledled Cymru, gan siarad â channoedd o bobl i siapio blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd y rhain ym mis Medi ac maent wedi'u siapio gan yr hyn sy'n bwysig i bobl Cymru.

Mae Gweinidogion a swyddogion wedi ymgysylltu rhagor wrth ddatblygu'r Gyllideb Ddrafft. Er enghraifft, rydym wedi cwrdd ag Awdurdodau Lleol, Comisiynwyr Cymru, sefydliadau'r Trydydd Sector, y Bwrdd Partneriaeth Plismona a'r Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol. Mae'r ymgysylltu hwn wedi bod yn gyfle i drafod yr heriau gwario ac ystyriaethau cyllido cysylltiedig, wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gyflawni cyllideb sy'n mynd i'r afael â'r cyd-destun economaidd ac yn braenaru'r tir i fynd i'r afael â heriau tymor hirach.

Ym mis Gorffennaf, cynhaliwyd ein cynhadledd dreth flynyddol. Dyma brif ffordd Llywodraeth Cymru o ymgysylltu â'r ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn polisi trethi yng Nghymru. Roedd nifer o siaradwyr yn y digwyddiad yn sôn am amrywiaeth eang o bynciau a oedd yn ymwneud â pholisi trethi yng Nghymru, er enghraifft, y rhagolygon cyllidol ar ôl yr etholiad, ymatebion ymddygiadol i dreth, a diwygio trethi lleol.

Defnyddiodd Trysorlys Cymru gyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â phobl am gyllideb Llywodraeth Cymru. Er enghraifft, drwy ddwy sianel X, @TrysorlysCymru a @WelshTreasury sy'n rhannu cynnwys am Gyllideb Cymru, trethi Cymreig a chyhoeddiadau am wariant. Mae nifer y dilynwyr wedi cynyddu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gydag oddeutu 1,750 yn dilyn @TrysorlysCymru ac oddeutu 8,040 yn dilyn @WelshTreasury.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wella ei hymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, i wella llythrennedd ariannol ac i'w helpu i ddeall sut mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ac effaith penderfyniadau eu llywodraeth. Rydym wedi gweithio gyda Plant yng Nghymru a Bwrdd Prosiect Cymru Ifanc i gydgynhyrchu fersiwn Pobl Ifanc o'r Cynllun Gwella'r Gyllideb yn ogystal â fersiwn wedi'i animeiddio a lansiwyd ym mis Chwefror. Ym mis Ebrill fe wnaethom ddechrau gweithio mewn partneriaeth gyda Discover Economics i gynnal digwyddiadau gyda phobl ifanc o grwpiau a dangynrychiolir, 15-17 oed, i ymgysylltu â nhw a'u hannog i astudio economeg.

## Cyflawni Cynllun Gwella'r Gyllideb yn y Dyfodol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2024 er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau i ddiwygio yn y dyfodol. Mae’r cynllun eleni’n adlewyrchu’r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd dros y pum mlynedd nesaf, a byddwn yn parhau i ddefnyddio dull gwella parhaus gan weithio’n agos gyda rhanddeiliaid allweddol fel y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am Gynllun Gwella’r Gyllideb, cysylltwch â bgb.polisiachyflenwi@llyw.cymru.

Etholiad Cyffredinol y DU (2024)

Etholiad y Senedd (2026)

| 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 | Cynllunio a chreu cyllideb 2029-30 |

## Penderfyniadau Gwario

### Ymgorffori'r Ddeddf mewn penderfyniadau gwario

**2024:** Rydym wedi parhau i ymgysylltu â llywodraethau eraill ynghyd â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i rannu arferion gorau ac i sicrhau bod y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn cyflawni ei ganlyniadau, yn parhau i ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r gyllideb, yn ogystal â chefnogi Cynllun Gwella'r Gyllideb.

**2025–2028+:** Parhau i ymgysylltu â llywodraethau eraill ynghyd â'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i rannu arferion gorau ac i sicrhau bod y Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb yn cyflawni ei ganlyniadau, yn parhau i ymgysylltu ac yn dylanwadu ar welliannau i brosesau treth a'r gyllideb, yn ogystal â chefnogi Cynllun Gwella'r Gyllideb.

**2024:** Rydym wedi parhau i weithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i wella proses yr Asesiad Effaith Integredig Strategol a sicrhau bod diwylliant o fonitro a gwella parhaus yn cael ei roi ar waith. Arweiniodd hyn at lansio adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Mae gwaith ymgysylltu cynnar wedi dechrau gydag aelodau'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a gofynnwyd am dystiolaeth gan weithwyr proffesiynol mewnol ym meysydd polisi a chyllid. Drwy ein hymgysylltiad â llywodraethau eraill, gan gynnwys Canada, Gwlad yr Iâ, Gogledd Iwerddon a'r Alban, rydym yn defnyddio profiad ac arferion gorau o bob cwr o'r byd.

**2025–2028+:** Byddwn yn cwblhau'r adolygiad o'r Asesiad Effaith Integredig Strategol. Parhau a gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ystyried ei argymhellion a'r camau y gellir eu cymryd i wella'r broses Asesiad Effaith Integredig Strategol.

### Yr Agenda Atal

**2024:** Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ystyried sut mae gwreiddio atal yn well yn y broses o bennu'r gyllideb. Rydym wedi sefydlu ffrwd waith bioamrywiaeth i archwilio lle gellid trosglwyddo arferion da a nodwyd o'r pecyn cymorth bioamrywiaeth i feysydd atal eraill.

**2025–2028+:** Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i lywio dyfodol yr agenda atal. Yn amodol ar ganfyddiadau o'r ffrwd waith bioamrywiaeth byddwn yn edrych ar y ffordd orau o gefnogi dull gweithredu cyllideb gyfan tuag at weithgareddau ataliol; ystyried gwerthusiad posibl i brofi ymarferoldeb ac effaith symud gwariant tuag at weithgareddau ataliol; a'r amodau sydd eu hangen i wneud hyn yn effeithiol ar draws y sefydliad cyfan. Bydd gwreiddio'r dull ataliol hefyd yn ystyriaeth allweddol i Adolygiad Gwariant Cymru, ymarfer a fydd yn ystyried budd cynllunio cyllidol tymor hirach wrth fynd i'r afael â'r heriau gwario hysbys a fydd yn wynebu Cymru yn y dyfodol.

**2024:** Rydym wedi parhau i ariannu ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i wella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r gronfa hon wedi darparu gwasanaethau maethu, mabwysiadu ac eiriolaeth ychwanegol.

**2025–2028+:** Rydym yn dal i ddefnyddio cyllid Buddsoddi i Arbed er mwyn canolbwyntio ar fwrw ymlaen â'n hymrwymiadau yn y Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â gwella canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal ledled Cymru. Mae'r cyllid a ddarperir yn galluogi cymorth ychwanegol ym meysydd gwasanaethau Maethu, Mabwysiadu ac Eiriolaeth a chaiff y gwaith hwn ei werthuso i asesu effeithiolrwydd y dulliau gweithredu yn y meysydd perthnasol. Mae yna hefyd gwestiwn ehangach ynghylch sut gellir mabwysiadu trefn gyllidebu ataliol yn ehangach ar draws y sefydliad. Byddwn yn parhau i fonitro a defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiadau i lunio'r ffordd orau o roi cyllidebu ataliol ar waith yn y dyfodol.

**2024–2025:** Mae ein Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a gyhoeddwyd yn 2021, yn strategaeth sy'n seiliedig ar ganlyniadau. Mae'r canlyniadau hyn yn ysgogwyr eu hunain i'r agenda atal, er enghraifft, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau defnydd anghynaliadwy o adnoddau naturiol, lleihau anghydraddoldeb cymdeithasol a hyrwyddo cydlyniant cymunedol. Dros amser, a thrwy'r buddsoddiadau mewn seilwaith a wneir oddi tani, bydd y Strategaeth yn ein cefnogi i atal problemau. I gefnogi'r gwaith o gyflawni canlyniadau'r Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, rydym yn cyhoeddi piblinell flynyddol sy'n rhannu gwybodaeth am y buddsoddiadau mewn seilwaith rydym ni, ein partneriaid cyflawni mewn awdurdod lleol ac yn sector preifat, yn eu cynllunio dros y tair blynedd nesaf.

**2026–2028+:** Cyhoeddi Cymru Sero Net (2026-2030).

| 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028+ |
|---|---|---|---|---|
| Etholiad Cyffredinol y DU | | Etholiad y Senedd | | |
| Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 | Cynllunio a chreu cyllideb 2029-30 |

## Penderfyniadau Gwario

### Yr Agenda Atal

**2026 – 2028+:** Pennu lefel y drydedd gyllideb garbon (2026-2030).

Adolygu dulliau cyllidebol yn erbyn tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar ddatgarboneiddio a bioamrywiaeth, gan adolygu cynlluniau gwariant cyfredol i leihau effeithiau carbon a chyflymu'r blaengynllunio ar gyfer y meysydd hynny y mae Llywodraeth yn rhyngweithio â nhw. Parhau i ddatblygu cryfder y sylfaen dystiolaeth bresennol i roi sicrwydd ynghylch gwerth am arian i gefnogi blaenoriaethu buddsoddiadau.

### Cynllunio ariannol tymor hirach

Gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb a rhanddeiliaid i lunio cynlluniau tymor hirach ar y cyd sy'n ymwneud â ffyrdd o ddefnyddio rhagolygon dangosol. Edrych pa wersi gellir eu dysgu gan Lywodraethau eraill o ran sut maent yn cynllunio ar gyfer y tymor hir ac yn cynnal Adolygiadau o Wariant. Bydd angen i'r rhain fod yn rhaglenni dros nifer o flynyddoedd a byddant yn seiliedig ar wersi o'r blynyddoedd blaenorol.

**2024:** Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio gyda Rhwydwaith Llywodraethau'r Economi Llesiant. Mae'r Rhwydwaith hwn yn rhannu uchelgais gyffredin i gyflawni ac i wella llesiant drwy eu dulliau gweithredu economaidd. Mae'r aelodau'n cynnwys swyddogion o lywodraethau'r Alban, Gwlad yr Iâ, Seland Newydd a Chanada.

**2025 – 2028+:** Parhau i ymgysylltu â llywodraethau eraill ac edrych ar eu gwaith a'u hagwedd at gynllunio ariannol tymor hirach a nodi'r gwersi gallwn eu dysgu yng Nghymru fel rhan o'n cynlluniau i archwilio opsiynau ar gyfer penderfyniadau gwario tymor hirach ar gyfer y cyfnod y mae gennym setliadau cyllido ar ei gyfer neu i adlewyrchu blaenoriaethau newydd y llywodraeth.

Adolygiad parhaus o dystiolaeth bresennol sy'n sail i gynllunio ariannol tymor hir a gwneud penderfyniadau, gan gynnwys Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol a chyngor Pwyllgor y DU ar Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gydag adrannau wrth iddynt siapio eu gwaith asesu effaith.

### Cyllideb Atodol

**2024:** Yn 2022-23, fe wnaethom fabwysiadu strategaeth gyllidol newydd i gynyddu'r cyllid sydd ar gael, gan gynnwys strategaeth cronfeydd wrth gefn newydd a rhaglen gyfalaf. Mae proses y gyllideb atodol yn parhau i fonitro'r dull hwn o weithredu.

**2025 – 2028+:** Byddwn yn parhau i adolygu ein dogfennau cyllideb ac wrth asesu'r wybodaeth i gefnogi cyllidebau atodol, byddwn yn parhau i daro'r cydbwysedd cywir o ran cymesuredd gydag esboniad pellach o'r newidiadau sylweddol sydd ynddynt. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r Nodyn Esboniadol i nodi gwybodaeth am unrhyw ddyraniadau allweddol a newidiadau sylweddol i gyllidebau atodol. Yn gyffredinol, mae newidiadau mewn cyllidebau atodol yn cynnwys dyraniadau sy'n ymwneud â rheoleiddio cyhoeddiadau cyllidebol a wneir gan Ysgrifenyddion y Cabinet ac mae gwybodaeth am y penderfyniadau cyllidebol hyn ar gael yn gyhoeddus. Pan fydd newidiadau technegol sylweddol, fel effaith IFRS16, bydd y rhain yn cael eu hegluro yn y Nodyn Esboniadol sy'n cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â thablau'r gyllideb atodol.

Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wrthi'n adolygu'r broses ar gyfer cyrff sy'n cael eu hariannu'n uniongyrchol mewn perthynas â chyllidebau atodol. Byddwn yn gweithio gyda'r Pwyllgor i wella prosesau yn ôl yr angen.

Etholiad Cyffredinol y DU (2024)

Etholiad y Senedd (2026)

| | | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028+ |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 | Cynllunio a chreu cyllideb 2029-30 |
| Penderfyniadau Gwario | Tryloywder Data Cyllidebol | Buom yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i gyd-gynhyrchu fersiwn Person Ifanc o Gynllun Gwella'r Gyllideb ynghyd ag animeiddiad, a lansiwyd gan Ysgrifennydd blaenorol y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ym mis Chwefror 2024. Ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, rydym yn edrych ar sut gallem ymgymryd â mwy o gydgynhyrchu gyda grwpiau eraill. Ers mis Ebrill 2024, rydym wedi gweithio gyda 'Discover Economics' i gynnal digwyddiadau gyda phobl ifanc o grwpiau a dangynrychiolir, 15-17 oed, i ymgysylltu â nhw a'u hannog i astudio economeg. | Parhau i fireinio a gwella tryloywder yr wybodaeth am y gyllideb, gan weithio gyda 'Discover Economics' a rhanddeiliaid allanol eraill, gyda'r nod o wella'r ddealltwriaeth o'r gyllideb flynyddol a'r ymgysylltiad â hi. | | | |
| Dadansoddi Cyllidol ac Asesiad o'r Effaith | Dadansoddiad Cyllidol | Cynnal model dadansoddi dosbarthiadol ac ystyried ffynonellau data newydd a/neu well. Diweddaru'r dadansoddiad a'i gyhoeddi ochr yn ochr â'r Gyllideb Ddrafft i gyflwyno effaith ddosbarthiadol gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. | | | | |
| | Dadansoddiad Cyllidol | Defnyddio adnoddau dadansoddi dosbarthiadol treth i roi sail i benderfyniadau cyllidebu. | | | | |
| | Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb | Rydym wedi gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i fwrw ymlaen â chamau gweithredu yn 2024, ac rydym yn parhau i weithio gyda'n gilydd i ddatblygu dull cadarn a thryloyw o asesu effaith penderfyniadau gwario. Gan adeiladu ar safbwyntiau rhanddeiliaid, rydym wedi gwneud cysylltiadau clir gyda sut mae dangos yn fwy effeithiol ac yn gliriach bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r fframwaith ar gyfer pob dyletswydd arall, ynghyd â chysylltiadau ag Adroddiad Llesiant Cymru; datblygiadau i asesu effaith ddosbarthiadol gwariant cyhoeddus yng Nghymru; uchelgeisiau ar gyfer cyllidebu ar sail rhyw gan gynnwys defnyddio lens rhywedd i ddefnyddio dull croestoriadol; ac ystyried cydbwysedd nodau tymor hir yn erbyn nodau tymor byr ac effeithiau penderfyniadau gwario. Dechreuodd adolygiad o sut rydym yn cynnal ac yn cyflwyno'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn 2024. | Gweithredu dadansoddiad gwell o effaith y gyllideb flynyddol sy'n ystyried yn effeithiol pob datblygiad yn y blynyddoedd blaenorol, mewn ffordd sy'n dangos yn glir sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail i'r ystyriaethau hyn. Byddwn yn cwblhau adolygiad Asesiad Effaith Integredig Strategol ac yn ystyried unrhyw argymhellion gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb i ystyried sut gallwn wella tryloywder ymhellach o ran sut mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y pum ffordd o weithio yn ei phrosesau cyllideb. | | | |

Etholiad Cyffredinol y DU (2024)

Etholiad y Senedd (2026)

| | 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028+ |
|---|---|---|---|---|---|
| | Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 | Cynllunio a chreu cyllideb 2029-30 |

## Dadansoddi Cyllidol ac Asesiad o'r Effaith

### Asesu Effaith Penderfyniadau ynghylch y Gyllideb

| 2024 | 2025–2028+ |
|---|---|
| Ystyried goblygiadau a chanfyddiadau'r cynlluniau peilot cyllidebu ar sail rhyw a gynhaliwyd yn ystod 2022-23 i bennu i ba raddau y mae canolbwyntio ar y rhywiau wedi'i wreiddio'n llawn, gan nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion da. | Cyhoeddi prif ganfyddiadau'r tri chynllun peilot cyllidebu ar sail rhyw a pharhau i feithrin gallu a chapasiti ar draws Llywodraeth Cymru i gynyddu ei hystyriaeth fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisïau. |
| Ym mis Mai 2024, aeth swyddogion Llywodraeth Cymru i Gynhadledd Rhwydwaith Cyllidebu ar sail Rhyw y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd i rannu a dysgu arferion da gan lywodraethau ar draws y byd. Rydym wedi parhau i ddatblygu ac ymgysylltu ag eraill ar gyllidebu ar sail rhyw. Rydym wedi ymgysylltu â llywodraethau eraill ac wedi dysgu oddi wrthynt gan gynnwys yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a Chanada. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r Wales Women's Budget Group a rhanddeiliaid eraill drwy'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn trafod ein dull cyllidebu ar sail rhyw. | Byddwn yn parhau i ddatblygu ac ymgysylltu ag eraill ar gyllidebu ar sail rhyw. Byddwn yn gwneud hyn drwy ymgysylltu'n rheolaidd â llywodraethau eraill, gan gynnwys yr Alban, Seland Newydd, Gwlad yr Iâ a Chanada, a dysgu ganddynt. Byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rheolaidd â'r Wales Women's Budget Group a rhanddeiliaid eraill drwy'r Grŵp Cynghori ar Wella ac Asesu Effaith y Gyllideb er mwyn datblygu ein dull cyllidebu ar sail rhyw. Bydd yn rhaid datblygu ein dull mewn cydweithrediad ag arweinwyr cyllid yn Adrannau Llywodraeth Cymru, er mwyn cydnabod eu rôl yn y gwaith o bennu cyllidebau mewn portffolios Gweinidogol unigol. |
| Rydym wedi dechrau ystyried sut gallai Llywodraeth Cymru gynnwys cwestiynau penodol am gyllidebu ar sail rhyw yn yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n cael ei gynnal wrth ddatblygu neu newid polisïau. | Parhau i weithio ar y cyd â rhanddeiliaid mewnol allweddol fel Penaethiaid Cyllid, Arweinwyr Proffesiynau Polisi a thimau Cydraddoldeb i gefnogi datblygiadau i asesiadau effaith a phenderfyniadau cyllideb a wneir ar lefel portffolio. |

### Dadansoddiadau Economaidd

| 2024 | 2025–2028+ |
|---|---|
| Darparu cyngor penodol i Gymru i sicrhau bod egwyddorion Llyfr Gwyrdd y Trysorlys yn cael eu defnyddio mewn meysydd polisi perthnasol mewn modd sy'n cyd-fynd â gwerthoedd Llywodraeth Cymru. | |
| We continued to produce regular economic Gwnaethom barhau i gynhyrchu dadansoddiadau economaidd rheolaidd a sesiynau briffio ar yr economi a'r heriau economaidd sy'n wynebu Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyflwyniadau i'r Cabinet ac uwch swyddogion a pharatoi dadansoddiadau ac asesiadau pwrpasol. Eleni, rydym wedi cyhoeddi adroddiad newydd, Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru. Mae hwn yn disodli adroddiad y Prif Economegydd ac yn rhoi trosolwg o gyd-destun a rhagolygon economaidd Cymru, gan ategu Adroddiad Llesiant Cymru ar yr un pryd. Mae adroddiad eleni yn cynnwys y prif faterion economaidd a chyllidol ond mae hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar gynhyrchiant. | Byddwn yn adolygu ac yn datblygu Adroddiad Economaidd a Chyllidol Cymru i ategu adroddiad Llesiant Cymru ymhellach drwy ganolbwyntio ar ddatblygiadau economaidd diweddar a heriau economaidd sy'n dod i'r amlwg. Parhau i gynhyrchu briffiau economaidd rheolaidd a diweddariadau ar yr amodau a'r rhagolygon economaidd ac ariannol. |

(The row "Darparu cyngor penodol…" spans all years, 2024–2028+.)

Etholiad Cyffredinol y DU (2024)

Etholiad y Senedd (2026)

| 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028+ |
|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 | Cynllunio a chreu cyllideb 2029-30 |

## Cynllunio Seilwaith

**2024:** Rydym wedi defnyddio'r dull gwerthuso a monitro a gynhaliwyd yn 2024 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu Cynllun Cyllid Seilwaith wedi'i ddiweddaru sy'n nodi ein buddsoddiadau arfaethedig mewn seilwaith ar gyfer 2025-26.

**2025–2026:** Yn amodol ar ddarparu setliad cyfalaf aml-flwyddyn gan Drysorlys EF ar gyfer 2026-27 ymlaen, datblygu'r ail Gynllun Cyllid Seilwaith llawn, gan ddefnyddio'r canlyniadau strategol cyson a nodir yn y Strategaeth Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, ac adlewyrchu canlyniadau'r dull gwerthuso a monitro.

## Trethi Cymreig

**2024–2026:** Ym mis Tachwedd 2021, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Gwaith Polisi Trethi a fydd ar waith am bum mlynedd (2021-26). Byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Polisi Trethi Blynyddol i gyd-fynd â Chyllideb Ddrafft 2025-26 Llywodraeth Cymru.

**2024–2028+:** Ar ôl i'r adolygiadau annibynnol o'n dwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn ddod i ben, cafodd argymhellion eu hystyried ac mae camau gweithredu'n cael eu cymryd fel y bo'n briodol.

**2024–2025:** Rydym yn parhau i adolygu cyfraddau a bandiau'r Dreth Trafodiadau Tir i sicrhau bod y dreth yn cefnogi amcanion cyllidol ac amcanion polisi ehangach.

**2024–2028+:** Ystyried sut mae defnyddio ysgogiadau polisi, deddfwriaethol a threth ehangach gyda phartneriaid polisi i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a chyflawni ein hamcanion amgylcheddol ehangach. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda chydweithwyr ym maes polisi gwastraff a Llywodraeth y DU ar Gynlluniau Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr ac Allyriadau Masnachu Carbon.

**2024–2028+:** Parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'r broses o ddatblygu polisi trethi. Mae hyn yn cynnwys defnyddio cymorth dadansoddol yn Llywodraeth Cymru, Awdurdod Cyllid Cymru a chyda Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi drwy ein Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Rydym yn bwrw ymlaen ag ymdrechion i sicrhau datganoli pwerau i gyflwyno Treth ar Dir Gwag yng Nghymru.

**2024–2028+:** Gwaith parhaus i wella gallu treth Cymru yn y meysydd polisi, dadansoddi, cyfathrebu, ymgysylltu, ymchwil, tystiolaeth a gweinyddu.

**2024:** Roeddem wedi gweithio i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno deddfwriaeth i ganiatáu i awdurdodau lleol godi Ardoll Ymwelwyr. Cyflwynwyd y ddeddfwriaeth gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2024.

**2025–2028+:** Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid yn parhau wrth i ni gwblhau ein cynigion.

**2024–2028+:** Adolygu gweithrediad ac effaith Deddf Trethi Cymru (Pŵer i Addasu) 2022, gan gynnwys ystyried mecanweithiau deddfwriaethol eraill ar gyfer newid Deddfau Trethi Cymru. Sicrhau bod rhwymedigaethau adrodd ac adolygu statudol Gweinidogion Cymru yn cael eu cyflawni.

**2024–2028+:** Byddwn yn parhau i feithrin perthynas waith adeiladol gyda Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi a Thrysorlys Ei Fawrhydi ar drethi a gedwir yn ôl. Rydym hefyd yn datblygu ein prosesau mewnol er mwyn sicrhau bod trethiant, lle bo hynny'n briodol, yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o ddatblygu polisi, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw drethiant anfwriadol na rhwymedigaethau eraill. Bydd hyn yn rhan allweddol o'n dull gweithredu newydd yn Adolygiad Gwariant nesaf Cymru.

Etholiad Cyffredinol y DU (2024)

Etholiad y Senedd (2026)

| 2024 | 2025 | 2026 | 2027 | 2028+ |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| Cynllunio a chreu cyllideb 2025-26 | Cynllunio a chreu cyllideb 2026-27 | Cynllunio a chreu cyllideb 2027-28 | Cynllunio a chreu cyllideb 2028-29 | Cynllunio a chreu cyllideb 2029-30 |

**Ymgysylltu**

Parhau i ymgysylltu â grwpiau rhanddeiliaid i sicrhau y gofynnir yn amserol am eu barn am flaenoriaethau cyllid er mwyn dylanwadu ar flaenoriaethau'r gyllideb ac Adolygiad Gwariant Cymru.

Parhau i archwilio cyfleoedd i ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a gwella dogfennau a gyhoeddir am y gyllideb i rannu'r negeseuon allweddol mewn ffordd syml, er mwyn codi ymwybyddiaeth dinasyddion o gyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru (treth a gwariant).

Monitro a gwerthuso gweithgarwch cyfathrebu'n barhaus er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni ac asesu targedau a chyrhaeddiad yn gyson.

Pwyso a mesur yr hyn a ddysgwyd a chyngor er mwyn datblygu a chyfrannu at strategaeth ymgysylltu dair blynedd i gryfhau ac adeiladu ar ymdrechion ymgysylltu gyda'r nod o gynyddu'r effaith ar lefel rhanddeiliaid ac ymysg dinasyddion ehangach yng Nghymru ar flaenoriaethau'r gyllideb.

Wrth i gyfrifoldebau trethi datganoledig aeddfedu, parhau i ddefnyddio'r Grŵp Ymgysylltu ynghylch Trethi fel cyfrwng i archwilio, cefnogi a llywio'r gwaith o lunio polisïau, gan nodi cyfleoedd a heriau yn y dyfodol.  Adolygiad blynyddol a phroses o werthuso mewnbwn er mwyn cyfrannu ar gyfer y blynyddoedd dilynol.

| 2024 | 2025–2028+ |
| --- | --- |
| Cynhaliom ein cynhadledd dreth flynyddol sy'n helpu i hyrwyddo agenda trethi Cymru ar 18 Gorffennaf 2024.  Yn y digwyddiad roedd nifer o siaradwyr wedi trafod amrywiaeth o bynciau – materion cyfredol ac i'r dyfodol – sy'n ymwneud â pholisi trethi yng Nghymru Dyma ein prif ffordd o ymgysylltu â'r ystod eang o randdeiliaid sydd â diddordeb mewn polisi trethi yng Nghymru ac mae'n helpu i ddatblygu'r rhwydwaith o arbenigwyr treth sy'n cyfrannu at ymgynghoriadau treth. | Bydd Trysorlys Cymru yn parhau i gynnal cynhadledd dreth flynyddol, sy'n helpu i gyflawni ein hymrwymiad i weithredu'n agored, yn onest ac yn dryloyw ar bolisi trethi. Mae'r gynhadledd yn dwyn ynghyd randdeiliaid o bob cwr o Gymru, y DU a phartneriaid rhyngwladol i helpu i hyrwyddo agenda treth Cymru, rhannu arferion da a'r datblygiadau diweddaraf ar bolisi trethi a gwahodd mewnbwn i gyfrannu at ddatblygu polisïau. |

Gwaith mapio a dadansoddi rheolaidd o randdeiliaid ar gyfer meysydd treth er mwyn sicrhau ymdrech ymgysylltu gyffredinol effeithiol ar gyfer yr agenda dreth.  Adolygu'r dulliau ar gyfer mesur effaith yr ymdrechion ymgysylltu.

Datblygu negeseuon a chyfathrebu mwy penodol i ddangos effaith gwariant ar draws adrannau'r Llywodraeth a meysydd cyllideb. Ystyried ffyrdd o weithio ar draws y Llywodraeth i dargedu negeseuon yn y meysydd hyn, gan godi ymwybyddiaeth a hybu rhagor o ymgysylltu.

| 2024 | 2025–2028+ |
| --- | --- |
| Ers mis Ebrill 2024, rydym wedi gweithio gyda 'Discover Economics' i gynnal digwyddiadau gyda phobl ifanc o grwpiau a dangynrychiolir, 15-17 oed, i ymgysylltu â nhw a'u hannog i astudio economeg a gwella llythrennedd ariannol. | Byddwn yn parhau i weithio gyda Discover Economics a sefydliadau perthnasol eraill i gynnal digwyddiadau gyda phobl ifanc o grwpiau a dangynrychiolir, rhwng 15 ac 17 oed. |